# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Beverly Owen (Chief Executive)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 **Cofnodion y cyfarfod diweddaf**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2020 fel rhai cywir

4 **Monitro cyllideb refeniw Gorffennaf 2020**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad am y sefyllfa monitro refeniw fel yr oedd ym mis Gorffennaf. Yr oedd yr adroddiad yn dangos sefyllfa well o lawer ers yr un yr adroddwyd amdani ym mis Mai i'r Cabinet, gyda'r gorwariant yn gostwng o £5.4 miliwn i £683,000, sydd yn gryn ostyngiad. Yr oedd hyn yn adlewyrchu newidiadau o gadarnhau cyllid gan Lywodraeth Cymru am wariant a cholli incwm cysylltiedig â Covid-19, sy'n cynnwys mwy o gymorth ariannol ar gyfer y canlynol:

- Colli incwm am chwarter 1 a chadarnhad fod modd defnyddio'r £78m cyfan o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer colli incwm, fydd yn gwella'r rhagolygon yn sylweddol;
- Parhau â'r gefnogaeth i Ofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd i chwarter 2;
- Cyhoeddiad am £264m ledled Cymru am weddill y flwyddyn ariannol i dalu am incwm a gollwyd a chostau cynyddol yn sgil pandemig Covid-19.

Oherwydd y mesurau ariannol uchod, llwyddwyd i ostwng y gorwariant a ragwelwyd yn sylweddol o'r hyn yr adroddwyd arno ym mis Mai; er hynny, nododd yr adroddiad fod angen mwy o fanylion eto am sut i gymhwyso'r cyllid ychwanegol ac ar gyfer beth y gellir ei ddefnyddio. Felly erys ansicrwydd am y rhagolygon, a meddwl am hyn pan geir mwy o fanylion.

Y meysydd allweddol sy'n cyfrannu at y gorwario a ragwelwyd yw:

(i) Arbedion cyllideb nas cyflwynwyd yn 2020/21 a'r flwyddyn cynt £1,540k
(ii) Mwy o alw am asiantaethau maethu annibynnol £446k
(iii) Effaith gorwario ar gyllidebau ysgolion £305k
(iv) Tanwario ar staffio a meysydd gwasanaeth eraill (£1,608k)

Mae a wnelo un o'r prif feysydd lle bu gorwario (gweler (i) uchod) a pheidio â chyflwyno arbedion ar draws nifer o feysydd gwasanaeth. Mae hyn yn cyfateb i £1.5 miliwn am 2020/21 ac arbedion y flwyddyn flaenorol ac nid yw'n unigryw i un maes gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr arbedion a ragwelwyd wedi dioddef o ganlyniad i bandemig covid-19, oedd wedi eu gostwng i 80% o'r targed. Er bod yr oedi ân anorfod, bydd angen i wasanaethau gyflwyno'r arbedion hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol fan bellaf, fel nad ydynt yn cael eu cario ymlaen fel problem i'r flwyddyn nesaf, ochr yn ochr ag arbedion newydd y gall fod eu hangen.

Yr oedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet nodi a chymeradwyo hyn, a bydd angen i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau ganolbwyntio arno; yn sicr mae'n fater i Aelodau Cabinet unigol fonitro yn eu cyfarfodydd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Maes arall o orwario a welwyd mewn rhagolygon blaenorol yw'r mannau sy'n cael eu harwain gan y galw. Er bod hyn wedi gwella ers rhagolwg mis Mai, adroddir am orwario o hyd yn y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys gorwario ar faethu annibynnol. O gofio natur y risg gyllidebol hon, gallai'r niferoedd newid trwy gydol y flwyddyn, fel sydd wedi digwydd dros y 2-3 blynedd ddiwethaf, felly mae hyn yn risg. Cadarnhaodd yr adroddiad y cedwir golwg fanwl ar y meysydd hyn.

Fel yr adroddwyd ym mis Mai, mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer yr ysgolion yn dal yn broblem, gydag ysgolion yn rhagweld gorwario eleni o £1.4m, sydd £305,000 yn uwch na'r arian sydd wrth gefn ar eu cyfer. Mae hyn yn bryder mawr i'r awdurdod, ac y mae swyddogion yn dal i weithio'n agos gyda'r ysgolion hynny i wneud yn siŵr fod cynlluniau adfer o'r diffyg ar gael, a bod camau'n cael eu cymryd i leihau gwariant.

Gwnaed iawn am y gorwario ar beidio â chyflwyno arbedion, ar wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, a chyllidebau ysgolion trwy ddefnyddio arian wrth gefn o £1.4m a thanwariant, yn bennaf oherwydd arbedion staff mewn meysydd gwasanaeth eraill, sy'n arwain at y sefyllfa gyffredinol o orwario £683,000.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod angen parhau i fod yn wyliadwrus am y sefyllfa; er ei fod yn well nag yr oedd ym mis Mai, mae'n dal yn orwario ac erys cryn ansicrwydd am y dyfodol wedi pandemig covid-19 a beth fydd yn rhaid i'r Cyngor wneud os bydd achosion yn dal i gynyddu. Mae ansicrwydd hefyd am lefel yr incwm ddaw o Dreth y Cyngor a'r effaith ar Gynllun Gostwng Treth y Cyngor wrth i weithwyr ddod allan o ffyrlo, ac effaith y dirwasgiad economaidd ar hyn. Cedwir golwg fanwl ar y meysydd hyn, a'u cyfoesi mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Gwahoddodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet i wneud sylwadau, a chytunodd pawb fod hwn yn amser digynsail, gyda llawer o heriau wedi eu hateb, ond fod mwy o'n blaenau. Yr oedd pawb yn canmol gwaith caled y swyddogion yn y cyfnod hwn i sicrhau fod cynlluniau ar gael i ateb yr heriau hyn.
Diolchodd yr Arweinydd i'w holl gydweithwyr, swyddogion y cyngor, athrawon a llywodraethwyr ysgolion sy'n cefnogi'r awdurdod yn ystod y pandemig hwn i sicrhau y parheir i roi gwasanaethau i bobl Casnewydd.
Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet nodi'r isod:

- sefyllfa gyffredinol rhagolygon y gyllideb a’r gorwariant sylweddol mewn meysydd gwasanaeth sy’n deillio yn bennaf o arbedion y CATC nas gweithredwyd oherwydd y pandemig, y risgiau sy’n gysylltiedig â hyn, a’r argymhelliad y dylai Penaethiaid Gwasanaeth ganolbwyntio ar hyn a gweithredu’r arbedion y cytunwyd arnynt cyn gynted ag y bo modd;

- y rhagdybiaethau cynllunio yn y sefyllfa a ragwelwyd, ac yn benodol yr ansicrwydd am y canlynol:
(i) yr effaith a gaiff Covid-19 ar feysydd gwasanaeth, a
(ii) chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru am weddill y flwyddyn ariannol.

- y symudiadau a ragwelir mewn arian wrth gefn;

- yr heriau ariannol arwyddocaol iawn sy’n wynebu ysgolion ac effaith ddifrifol hyn ar gyllidebau refeniw eraill y Cyngor a’r arian wrth gefn. Nodi’r camau a gymerir ar hyn o bryd, a sylwadau’r Pennaeth Cyllid am ddifrifoldeb y sefyllfa.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd y Cabinet a chytuno’n unfrydol ar yr adroddiad.

5 **Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Gorffennaf 2020**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn cadarnhau’r diweddariad ar fonitro cyfalaf 2020/21 a’r newidiadau i’r rhaglen gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad cyfalaf blaenorol a gyflwynwyd i’r Cabinet, cynhaliwyd adolygiad sylweddol ac ail-broffilio’r rhaglen gyfalaf, a arweiniodd at ail-broffilio (“llithro”) £27.5m o 2020/21 i’r blynyddoedd i ddod, ar draws amrywiol raglenni gan gynnwys Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae hyn yn adlewyrchu amserlen fwy realistig i gyflwyno’r prosiectau, a gofynnir i’r swyddogion adolygu prosiectau yn gyson a chyfoesi eu proffil wrth i’r cynllun fynd rhagddo.

Hefyd, ychwanegwyd gwerth £2.8m o brosiectau i’r rhaglen, gan gynnwys nifer o gynlluniau priffyrdd a gwella seilwaith a gyllidir gan grantiau, fydd o fudd i Gasnewydd. Mae hyn yn dod â chyfanswm y rhaglen gyfalaf i £204.4 miliwn, sydd yn fuddsoddiad helaeth mewn nifer o ardaloedd yng Nghasnewydd gan gynnwys ysgolion, asedau treftadaeth, priffyrdd, a chynlluniau adfywio ac amgylcheddol.

O ran monitro, yn dilyn ail-broffilio’r cyllidebau ac ychwanegiadau i’r rhaglen, mae cyllideb gyfalaf 2020/21 yn £39.5 miliwn. Nododd yr adroddiad fod tanwariant bychan iawn yn erbyn rhaglen 2020/21 o £375,000. Mae’r gwariant eleni ar y gyllideb ar hyn o bryd yn isel, ond gellir priodoli hyn i Covid-19, a disgwylir y bydd gwariant yn codi’n sylweddol yn nhri-chwarter nesaf y flwyddyn. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd swyddogion yn parhau i fonitro hyn yn agos a sôn am yr effeithiau mewn adroddiadau yn y dyfodol i’r Cabinet.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod y cynlluniau a gymeradwywyd ac sydd eisoes wedi dechrau yn mynd rhagddynt yn dda, fel y gwelir yn yr adroddiad.

Mae’r arian cyfalaf rhydd (cyllideb lle nad oes gwariant eto wedi ei ymrwymo), yn £23.3m. Mae’r galw am wariant cyfalaf yng Nghasnewydd yn fwy na lefel yr adnoddau, a rhaid i’r Cyngor felly flaenoriaethu lle i wario’r adnoddau cyfalaf hyn. Byddwn yn edrych ar y Strategaeth Gyfalaf dros y misoedd nesaf, ynghyd â’r Cynllun Ariannol Tymor Canol y bydd angen ei gymeradwyo gan y Cyngor o ran cyllido’r Rhaglen Gyfalaf yn y tymor hir ac effaith hyn ar gyllideb refeniw’r rhaglen yn y dyfodol. Yn ffigwr yr arian rhydd y mae derbyniadau cyfalaf, a’r ffigwr ym mis Gorffennaf yw £5.2 miliwn.

Gwahoddodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet i roi sylwadau:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Giles at y gwariant cyfalaf ar ysgolion a’r cyfyngiadau ar yr awdurdod yn gorfod nodi arian cyfalaf o fewn y gyllideb a dim ond pan fydd hynny wedi ei nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid cyfatebol;  mae’r dyheadau am wario ar ysgolion yn uwch o lawer na’r hyn a nodir yn yr adroddiad hwn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at y tri chartref plant newydd sy’n cael eu datblygu, a chadarnhaodd fod Casnewydd yn arwain y ffordd gyda’r fenter hon sydd yn galluogi dwyn plant yn ôl adref o ardaloedd y tu allan i’r dalgylch. Ymwelodd yr Arweinydd a’r Dirprwy Arweinydd a dau o’r cartrefi yn ddiweddar gyda’r Cynghorydd Cockeram, ac y maent yn falch iawn o’r strategaeth ac o’r cynlluniau, o safbwynt eu heffaith ar fywydau’r plant a’u datblygiad personol. Pwysleisiodd yr Arweinydd hefyd y rheidrwydd moesol sydd ar yr awdurdod o ran sicrhau gwell canlyniad i fywydau’r plant sy’n derbyn ein gofal. Mae’r Arweinydd a’r Dirprwy Arweinydd yn edrych ymlaen at ymweld eto â’r cartrefi pan fydd y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau.

I grynhoi, yr oedd yr adroddiad yn gofyn i’r Cabinet wneud y canlynol:

- cymeradwyo’r ychwanegiadau i’r Rhaglen Gyfalaf y gofynnir amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A);
- cymeradwyo llithriad o £27.5 miliwn gan nodi ail;-broffilio’r rhaglen yn sgil hyn;
- nodi’r adnoddau cyfalaf sydd weddill (‘arian rhydd’) tan 2022/23;
- nodi’r sefyllfa o ran rhagolygon gwario cyfalaf fel ym mis Gorffennaf 2020;
- nodi balans dyraniad y derbyniadau cyfalaf am eleni a’i gymeradwyo.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd  y Cabinet a chytuno’n unfrydol ar yr adroddiad.

## 6 **chwarter adroddiad risg 4 (2019/20)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi cyfoesiad o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter 4 (31 Mawrth 2020). Esboniodd yr Arweinydd, oherwydd Covid-19, y bu’n rhaid gohirio’r cyfoesiad o’r adroddiad hwn tan nawr. Tynnodd yr Arweinydd sylw at y diweddariadau isod yn yr adroddiad:

- Ar derfyn chwarter 4 yr oedd y Gofrestr Risg Corfforaethol  yn cynnwys 13 risg oedd angen eu monitro gan y Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor;

- Bydd y risgiau sydd weddill yn dal i gael eu monitro trwy feysydd gwasanaeth y Cyngor a’r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae mecanweithiau ar gael i anfon unrhyw risgiau newydd neu rai sy’n bod eisoes i’r Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Ar derfyn Chwarter 4 (1 Ionawr i 31 Mawrth 2020) yr oedd gan y Cyngor 8 risg uchel (15 i 25) a 3 risg ganolig (5 i 14) a 2 risg isel (13 i 1).  O gymharu â chwarter 3 yr oedd un risg newydd ac ni chaewyd yr un risg. Fo dd bynnag, mae un risg wedi cynyddu ei sgôr a phedair wedi gostwng.

o (NEWYDD) Pandemig Covid-19

 Yn chwarter 4 ychwanegodd y Cyngor risg Covid-19 i’r Gofrestr Risg  wrth i Covid-19 ledaenu ar draws cymunedau yng Nghasnewydd a chael effaith ar gyflwyno gwasanaethau’r Cyngor. Rhoddodd y Cyngor ei drefniadau Parhad Busnes Comand Aur ar waith i reoli risgiau a phroblemau cymunedol a gweithred i Gasnewydd, gan gysylltu’n uniongyrchol â grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol  (a amlinellir hefyd yn yr adroddiad ar Covid-19 ar yr agenda). Bydd cyfoesiadau pellach am y risgiau strategol fydd yn effeithio ar y Cyngor yn ystod Covid-19 yn cael eu rhoi yn y diweddariad am risgiau Chwarter 1 2020/21.

Oedodd yr Arweinydd yma i ddweud fod yr adroddiadau hyn wedi eu paratoi pan nad oeddem yn y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, ac ni allai or-bwysleisio gymaint y mae Covid-19 wedi effeithio ar ein cymunedau. Cadarnhaodd fod y sefyllfa yn newid o ddydd i ddydd. Mae rhai o gymdogion Casnewydd yn ôl mewn cyfnod clo, a'r sefyllfa yng Nghasnewydd hefyd yn ddifrifol iawn. Rhaid i bawb wneud yn siwr eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu i leihau'r risg a gofalu eu bod yn dilyn y canllawiau i atal lledaeniad y firws. Mae'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau yn hanfodol i hyn, ac anogodd yr Arweinydd bobl Casnewydd i sicrhau eu bod yn defnyddio'r system hon wrth fynd i fwytai, tafarndai, etc., gan fod hyn yn hollbwysig er mwyn olrhain unrhyw achosion o'r firws.

I ddychwelyd at gynnwys yr adroddiad:

o Sefydlogrwydd darparwyr gofal cymdeithasol (Cynnydd yn y sgôr risg o 20 i 25)
? Yr oedd gallu darparwyr gofal cymdeithasol (preswyl a chartref) i roi''r gofal a'r gefnogaeth angenrheidiol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn dioddef oherwydd Covid-19 yn y gymuned ac mewn lleoliadau gofal ledled Casnewydd ar ddiwedd Ch4.

o Cydbwyso Cynllun Cyllideb Tymor Canol y Cyngor (Gostyngiad yn y sgôr risg o 20 i 15)
 Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd y Cyngor wedi lleihau'r bwlch rhwng y rhagfynegiadau am y 3 blynedd nesaf.

o Rheolaeth Ariannol yn y Flwyddyn (Gostyngiad yn y sgôr risg o 12 i 3)
? Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cytunodd Cabinet y Cyngor i roi mwy o arian i gyllidebau ysgolion gan leihau effaith y diffyg. Serch hynny, mae rhai ysgolion unigol yn dal i wynebu diffyg yn y gyllideb, a bydd angen gweithredu pellach i leihau effaith gorwario yn 2020/21.

o Galw am gefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). (Gostyngiad yn y sgôr risg o 20 i 16)
? Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys y fformiwla gyllido newydd am Anghenion Dysgu Ychwanegol y cytunwyd arni gyda phenaethiaid, sy'n lleihau'r risg yn y fan a'r lle. Yn ystod y cyfnod clo, bu cynnydd yn y ceisiadau am asesiadau ffurfiol i ddisgyblion a all fod angen lleoliadau arbenigol neu gefnogaeth ychwanegol.

• Rhoddir cyfoesiad pellach am y risgiau strategol sy'n effeithio ar y Cyngor yn ystod Covid-19 yn y diweddariad risg am Chwarter 1 2020/21 .

Gwahoddodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet am sylwadau, a chytunodd pawb gyda'i sylwadau cynharach yn y cyfarfod am ddifrifoldeb y firws a'r angen i bawb ddilyn y rheolau er mwyn atal y firws rhag lledaenu ymhellach ac atal ail glo pellach fel mae dau o'n hawdurdodau cyfagos wedi gorfod gwneud.

I grynhoi, yr oedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet wneud y canlynol:

• ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r newidiadau i'r Gofrestr Risg am ddiwedd chwarter 4.

• nodi fod Polisi Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn galluogi'r weinyddiaeth a'r swyddogion i nodi, rheoli a monitro yn effeithiol y risgiau hynny a allai atal yr awdurdod rhag cyrraedd ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a'i ddyletswyddau statudol.

• nodi y cyflwynir yr adroddiad risg Chwarter 4 hefyd i Bwyllgor Craffu'r Cyngor ym Medi 2020 i adolygu trefniadau rheoli risg y Cyngor a'r trefniadau llywodraethiant.
Penderfyniad:

Pleidleisiodd y Cabinet a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad.

7 **Adolygiad perfformiad diwedd blwyddyn 2019/20**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad meysydd gwasanaeth am 2019/20 yn erbyn pob un o'r cynlluniau gwasanaeth am 2018/22 (ar gyfer 2019/20); yn cydnabod y llwyddiannau a gaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf; ac yn ymdrin ag unrhyw feysydd o danberfformio ar draws meysydd gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr awdurdod yn 2017 wedi lansio Cynllun Corfforaethol 5-mlynedd y Cyngor, sydd yn gosod allan ei weledigaeth a'i nod o ran cyflwyno gwasanaethau'r Cyngor a'i Amcanion Lles i ddinasyddion Casnewydd. Dywedodd mai dyma drydedd flwyddyn cyflwyno yn erbyn yr amcanion.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet nodi y cyflwynir Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2019/20 i'r Cabinet ym mis Hydref a fydd yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac yr aiff yr adroddiad yn gyntaf at y Pwyllgor Craffu i'w adolygu.
Cadarnhaodd yr adroddiad y canlynol: pandemig
Fel yr adroddwyd yn y chwarter diwethaf (Ionawr i Fawrth 2020), golygodd pandemig Covid-19 fod llawer maes gwasanaeth wedi dargyfeirio eu hadnoddau a'u gweithgareddau i sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen hanfodol yn cael eu cefnogi. Hefyd, cafodd meincnodi mesuriadau perfformiad cenedlaethol eu hatal. Cyflwynir adroddiadau ychwanegol i'r Cabinet yn amlinellu'r gwaith a wnaeth y Cyngor hyd yma a'r cynnydd gan feysydd gwasanaeth yn erbyn y Nodau Adfer Strategol yn yr adolygiadau tymor-canol yn yr hydref.
Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o gynnydd pob maes gwasanaeth yn 2019/20 yn erbyn pob un o'u hamcanion, ac amlygu datblygiadau pellach eraill o ran cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol, a sut yr effeithiodd Covid-19 ar bob maes gwasanaeth.
Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, mae pob maes gwasanaeth yn gwneud cynnydd da tuag at gyflwyno eu hamcanion, fel a ganlyn:

o 58% (171 / 297) o gamau wedi eu cwblhau gan y meysydd gwasanaeth;
o 25% (74 / 297) o gamau "Ar y gweill" ac yn cael eu dwyn ymlaen i gynlluniau 2020/21;
o 15% (44 / 297) o gamau lle nodwyd problemau a allai gael effaith ar gyflwyno o fewn yr amserlen;
o 3% o gamau (8 o 297) heb gyrraedd y targed.
Mae manylion llawn y datblygiadau hyn yn yr adroddiad. Tynnodd yr Arweinydd sylw at rai o lwyddiannau'r Cyngor ers llynedd:

o Gwasanaeth Babi a Mi a ddarparwyd trwy gydweithredu rhwng Gwasanaethau Plant y Cyngor a Barnardos, a gafodd ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth ac sydd wedi ei gydnabod ledled y DU ac yn y cyfryngau;

o Cafodd y Cyngor arolygiad amlasiantaethol o Wasanaethau Amddiffyn Plant yn 2019/20, oedd yn agwedd gymharol newydd ond sydd wedi derbyn adborth positif dros ben o ran y modd mae gwasanaethau yn cael eu rhedeg, a lle mae angen cryfhau'r trefniadau presennol;

o Mae gwasanaethau teleofal CDC (Gwasanaethau oedolion) bellach yn rhedeg yn llawn ac yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio technoleg i alluogi pobl i barhau i fyw yn annibynnol gartref;

o Cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil (Gwasanaethau'r Ddinas) sydd wedi arwain at welliannau yn niogelwch y ffyrdd a gwella'r amgylchedd o gwmpas Casnewydd.

o Biniau newydd (Gwasanaethau'r Ddinas) sydd wedi gweld gwaliant yn y gyfradd ailgylchu o 58% i 66.4% - sy'n well na tharged statudol y Cyngor;

o Presenoldeb mewn ysgolion (Addysg) wedi gwella. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn 6ed o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gwelliant o 7 lle ers y flwyddyn flaenorol, a phresenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn 7fed o'r 22 - gwelliant o 9 lle ers y flwyddyn flaenorol;

o Gwnaed cryn gynnydd i adfywio Canol Dinas Casnewydd (Adfywio, Buddsoddi a Thai) gyda phrosiectau fel Gwesty'r Siartwyr, Arcêd y Farchnad, a hen adeilad IAC, Stryd y Felin;

o Ail-ddatblygu Hwb Ringland (Adfywio, Buddsoddi a Thai) a chyflwyno'r Hybiau Cymdogaeth sydd yn darparu gwahanol wasanaethau'r Cyngor mewn un adeilad i'r gymuned;

o Mae Gwasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor yn parhau i atal a gweithredu yn erbyn y sawl nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau Safonau Masnach, ac yn symud ymaith gynhyrchion a nwyddau peryglus o'r silffoedd; bu'r maes gwasanaeth hwn yn eithriadol o ran ei ymateb i covid-19 a diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu gwaith campus.

o Mae'r tîm Digidol wedi cefnogi'r ffordd newydd o weithio yn ystod cyfnod clo Covid-19 trwy dechnoleg a chefnogaeth TG, a chyflwyno Microsoft Teams mewn byr amser.
Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y mesuriadau perfformiad diwedd blwyddyn sy'n cefnogi cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.

Dywedodd yr Arweinydd mor galonogol oedd gweld, ar ddiwedd y flwyddyn, fod 61 o'r 111 (55%) mesur perfformiad corfforaethol naill ai wedi cyrraedd neu wneud yn well na'u targed am y flwyddyn. Dywedwyd fod rhai mesuriadau perfformiad heb gyrraedd eu targed neu 'oddi ar y targed' o ran eu ffigyrau, a nodir y rhain yn yr adroddiad.
Yn yr adroddiad yr oedd crynodeb o'r meysydd gwasanaeth yn esbonio'r rheswm/rhesymau dros berfformiad, a'r camau a gymerir i wella perfformiad y mesuriadau a nodwyd yn Oren a Choch. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y wybodaeth hon hefyd wedi mynd i'r Pwyllgor Craffu.
Dan amgylchiadau normal, mae'r diweddariadau am berfformiad diwedd blwyddyn hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu Lle a Chorfforaethol a Phobl i adolygu cynnydd a pherfformiad meysydd gwasanaeth y Cyngor yn erbyn eu hamcanion. Oherwydd pandemig Covid-19, ataliwyd y broses ddemocrataidd ar derfyn blwyddyn ariannol 2019/20; cafodd yr adroddiadau felly eu darparu i'r Pwyllgorau Craffu er gwybodaeth. Cadarnhaodd yr Arweinydd y caiff y Pwyllgorau gyfle i adolygu'r cynnydd a wneir yn erbyn cynlluniau gwasanaeth 2020/21 ar y pwynt canol-blwyddyn ddiwedd yr hydref.

Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd y cyflwynir adroddiad canol-blwyddyn pellach pan gaiff y Cabinet gyfoesiadau am gyflwyno cynlluniau gwasanaeth; bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o'r modd yr effeithiodd Covid-19 ar amcanion a pherfformiad. Mae adroddiad hefyd am gyflwyno'r 4 Nod Adfer Strategol yn adroddiad Medi 2020 i'r Cabinet.
Dywedodd yr Arweinydd fod yn rhaid i'r Cabinet (fel corff ac fel Aelodau unigol y Cabinet), gydnabod lle mae meysydd gwasanaeth wedi cyrraedd neu wneud yn well na'u nod, a'r gwaith caled a wnaed – yn enwedig lle mae Covid-19 wedi tarfu ar gyflwyno gwasanaethau. Yn yr un modd, rhaid cydnabod lle nad yw'r Cyngor yn cwrdd â thargedau, fod y rhain yn cael eu monitro'n agos, eu cefnogi a'u herio er mwyn cymryd y camau angenrheidiol i wella perfformiad ac adfer o effeithiau Covid-19.

Gwahoddodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet i wneud sylwadau:
Canmolodd yr aelodau Cabinet y staff sy'n dal i weithio'n effeithiol ac effeithlon ar draws yr holl feysydd gwasanaeth yn y cyfnod heriol hwn.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Weithredwr i ddweud gair, a dywedodd fod yr adroddiadau ar berfformiad, risg a chyllid oll yn gysylltiedig, a diolchodd i'r Cabinet am eu cefnogaeth. Diolchodd yn bersonol hefyd i'r timau am eu gwaith rhagorol llynedd, gan ganolbwyntio fel tîm ar y meysydd hynny sy'n arbennig o heriol. Cadarnhaodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar y CATC am eleni a'r flwyddyn nesaf, ac y mae'r swyddogion hefyd yn canolbwyntio ar y blaen-raglen gyfalaf.
I grynhoi, yr oedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet wneud y canlynol:

- Nodi cynnwys yr adroddiad;

- Gweithredu ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth i ymdrin â meysydd lle mae perfformiad yn wael.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd  y Cabinet a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad.

## 8 Aadroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg

Paratowyd yr adroddiad yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg 158, 164 a 170 sy'n mynnu bod y Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth benodol, gan gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd, sgiliau iaith Gymraeg y staff, yr hyfforddiant a gynigir trwy'r Gymraeg, a lefel y Gymraeg sydd ei angen ar gyfer pob swydd wag a swydd newydd a hysbysebir yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol ar wefan y Cyngor ar ffurf drafft ar hyn o bryd er mwyn cydymffurfio â'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi o Fehefin 2020.  Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cydnabod y gall oedi ddigwydd gydag adroddiadau terfynol oherwydd effaith COVID-19 ar drefniadau llywodraethiant cynghorau.
Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet am ei fod yn gyfle iddi hi ac Aelodau'r Cabinet adfyfyrio ar lwyddiannau dros y 12 mis a aeth heibio, yn ogystal â'r cyfleoedd sydd angen eu datblygu ymhellach yn ymrwymiad y Cyngor i dyfu'r iaith yn y ddinas dros y flwyddyn i ddod.
Cadarnhaodd yr adroddiad fod canolbwynt eleni wedi bod ar ddatblygu perthynas gyda phartneriaid yn y gymuned, croesawu Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i'r Ganolfan Ddinesig fel rhan o Ŵyl Newydd, ein gŵyl Gymraeg leol, a recriwtio Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg i helpu i ddwyn cymunedau lleol i mewn yn y cyfnod sy'n arwain at agor pedwaredd ysgol gynradd Gymraeg y ddinas.
Cafodd pob aelod o'r Cabinet gyfle i fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg eleni, a diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Jason Hughes, sydd, yn rhinwedd ei swydd fel pencampwr iaith Gymraeg, yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg aelodau etholedig ac ar draws cymunedau.  Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r swyddogion am barhau i hyrwyddo hyn ledled yr awdurdod.
I edrych ymlaen, mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn nodi nifer o flaenoriaethau allweddol at y dyfodol, gan gynnwys:
- cynyddu nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant yn y Gymraeg;
- gwella'r data sydd gennym am siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor, a,
- gweithio i sefydlu'r iaith Gymraeg fel rhan o ymdeimlad ein cymunedau amrywiol o berthyn i'r ddinas.

Cynigiodd yr Arweinydd yr adroddiad blynyddol i'w fabwysiadu. Diolch yn fawr.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau i ddweud gair am yr adroddiad

Yr oedd y Cynghorydd Mayer, fel yr arweinydd ar gydraddoldeb, yn croesawu Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg eleni, ac yr oedd yn arbennig o falch gyda'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf i ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda phartneriaid Cymraeg a chymunedol y Cyngor. Cadarnhaodd fod y Cyngor yn gweithio i wreiddio'r Gymraeg fel rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol y ddinas, ac yr oedd wrth ei fodd fod digwyddiadau a phartneriaethau lleol wedi eu cefnogi er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Fel un sy'n dysgu Cymraeg, mae'r Aelod Cabinet hefyd eleni yn annog peilotio nifer o gyfleoedd hyfforddi newydd i gynghorwyr a staff, yn y gobaith y bydd hyn yn annog mwy o bobl i ddysgu ein hiaith genedlaethol.

I grynhoi, yr oedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet wneud y canlynol:

• cymeradwyo'r adroddiad monitro terfynol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â'r terfynau amser statudol.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd y Cabinet a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad.

## 9 Teithio cynaliadwy

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar deithio cynaliadwy ar hyd a lled Casnewydd.

Nododd yr adroddiad fod cysylltiadau trafnidiaeth lleol da yn fanteisiol i bobl, busnesau, yr amgylchedd a'r economi yn gyffredinol. Maent yn hanfodol er mwyn cynnal lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Casnewydd. Dyma rai o'r prif fanteision:

- cysylltu pobl a chymunedau;
- cefnogi twf economaidd trwy annog busnesau i fuddsoddi yn yr ardal;
- helpu i daclo tlodi trwy roi mynediad i bobl at addysg a gwaith;
- gwella ein hamgylchedd a'n hiechyd trwy leihau allyriadau carbon, gwella ansawdd aer a galluogi pobl i deithio'n fwy llesol.

Mae'r adroddiad hefyd yn gosod allan gyd-destun cenedlaethol trafnidiaeth, effeithiau a chyfleoedd pandemig Covid-19, ac yn rhoi diweddariad am y gwelliannau diweddar a chyfleoedd at y dyfodol yng Nghasnewydd.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o weld gwelliannau cyson i fflyd y Cyngor, cludiant cyhoeddus, seilwaith a rhwydweithiau teithio llesol ar yr adeg heriol hon. Yr oedd yn falch hefyd i weld y gweithio cryf mewn partneriaeth ledled Gwent ar y Siarter Teithio Cynaliadwy, gaiff ei lansio ym mis Hydref.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o weld y fflyd o gerbydau trydan gafodd eu cyflwyno i Drafnidiaeth Casnewydd, a diolchodd i'r Cynghorydd Harvey, fel cadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Casnewydd a rheolwyr Trafnidiaeth Casnewydd am eu gwaith caled yn gwireddu'r weledigaeth hon.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Dirprwy Arweinydd (fel Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas) a'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy i siarad am yr adroddiad.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas fod yr adroddiad yn gosod allan beth o'r gwaith sydd yn digwydd i wella dewisiadau a rhwydwaith trafnidiaeth y ddinas, fel y gwelir yn y pwyntiau isod yn yr adroddiad hwn. Yr oedd yn arbennig o falch o weld y bydd y

Cyngor yn derbyn eu cerbyd gwastraff allyriadau-isel-iawn cyntaf ym Mawrth 2021, fydd eto'n helpu yn y gwaith i ostwng allyriadau carbon y Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy i'r swyddogion am y wybodaeth yn yr adroddiad. Dywedodd fod rhwydweithiau teithio cynaliadwy yn hanfodol er mwyn gwella a chynnal lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Casnewydd. Maent yn allweddol i gysylltu pobl a chymunedau, cefnogi twf economaidd, taclo tlodi a gwella'r amgylchedd ac iechyd. Pwysleisiodd hefyd yr angen i leihau allyriadau carbon a chroesawodd y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan gydweithwyr yn y Cabinet.

Anogodd y Cynghorydd Giles rieni i sy'n gallu gwneud hynny i gerdded gyda'u plant i'r ysgol yn hytrach na mynd mewn car, gan y bydd hyn yn ategu'r gwaith gwych a grybwyllir yn yr adroddiad hwn.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Rahman fod iechyd a lles trigolion yn flaenoriaeth i'r weinyddiaeth hon, a buddsoddi ar yr un pryd yn y dyfodol gyda llawer o'r mentrau hyn.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch arbennig i'r swyddogion am eu diwydrwydd a'u gwaith caled i sicrhau cyllid grantiau er mwyn cyflwyno rhai o'r mentrau hyn. Diolchodd hefyd i feicwyr Casnewydd a gynigiodd lawer o wybodaeth a syniadau i gyfrannu at waith y cyngor. Diolchodd hefyd i Aelodau'r Senedd dros Gasnewydd, John Griffiths a Jayne Bryant, am eu cydweithrediad, a Dirprwy Weinidog yr Economi, Lee Waters, am ei ymwneud â'r gwaith hwn.

Nodwyd y prif bwyntiau a ganlyn yn yr adroddiad:
Cyd-destun Cenedlaethol
- Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn cael ei datblygu.
- Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn cynnig cyflwyno swyddogaethau trafnidiaeth lleol i Gydbwyllgorau Corfforaethol.
- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru i roi cyngor am anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol Cymru dros 5-30 mlynedd.
- Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yn ei le i ystyried nifer o faterion o ran tagfeydd ar yr M4 ar hyd coridor y de-orllewin, ac i roi argymhellion ar ymyriadau posib i leihau'r effaith erbyn mis Rhagfyr 2020.

Effeithiau a Chyfleoedd pandemig Covid-19
- Gostyngodd y galw am gludiant cyhoeddus yn sylweddol, gyda chwmnïau bysus a rheilffyrdd yn crybwyll gostyngiad o 95% mewn lefelau cyn covid-19. Mae pecyn cymorth ar gael i gynnal rhwydwaith craidd o gludiant cyhoeddus (er yn llai aml).
- Gostyngodd nifer y cerbydau mewn meysydd parcio o 95.4% yn Ebrill a Mai. Mae'r defnydd yn cynyddu wrth i siopau a busnesau ddechrau ail-agor.
- Ers mis Mawrth, bu tua 1,200 o staff yn gweithio o gartref yn rhan neu yn llawn amser, gan gyfrannu at leihad yn yr allyriadau carbon yn ne Cymru. Mae'r Cyngor yn edrych i mewn i rai o fanteision gweithio yn wahanol.
- £600k o arian ychwanegol wedi ei roi i saith cynllun i hwyluso ymbellhau cymdeithasol ac i liniaru mwy o ddefnydd o geir trwy annog teithio llesol.

Gwelliannau Diweddar a Chyfleoedd at y Dyfodol
- Adnewyddu ac uwchraddio arosfannau bysus ledled Casnewydd gyda gwybodaeth mewn amser real i deithwyr.
- Disgwylir i 15 o fysus allyriadau-isel-iawn i ddod i wasanaeth yng Nghasnewydd yn yr hydref.
- Mae 21 o gerbydau allyriadau-isel-iawn a hybrid bellach yn rhan o fflyd y cyngor a chaiff cerbyd gwastraff allyriadau-isel-iawn ei gyflwyno ym mis Mawrth 2021, y cyntaf yng Nghymru.
- Mae pwyntiau gwefru ceir trydan yn cael eu gosod, fyd dyn dod â'r cyfanswm i 51 yn y ddinas.

- Ers 2014, ychwanegwyd 20km o lwybrau teithio llesol at y rhwydwaith.
- Cynhaliwyd astudiaeth dichonoldeb llogi beiciau ar y stryd yn 2019.
- Dyfarnwyd £1.72M yn 2020-21 i dalu am naw cynllun ar draws y ddinas i wneud gwelliannau i briffyrdd, teithio llesol, diogelwch y ffyrdd, draeniad, seilwaith bysus.
- Bydd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent yn cael ei lansio ym mis Hydref i gefnogi ac annog staff y sector cyhoeddus i leihau teithio lle bo modd a hefyd i ddefnyddio dulliau iach o deithio ar gyfer cymudo a theithio ar fusnes.
- Mae Canllawiau Cynllunio Ategol Teithio Cynaliadwy yn awr ar gael i gefnogi datblygwyr i ystyried teithio cynaliadwy mewn cynlluniau newydd mewn cymunedau, a deall sut y mae datblygiadau yn cysylltu â'r gymuned yn ehangach.
- Cymerodd 47 mudiad ledled Casnewydd ran yng nghynllun tanwydd darbodus ECO i leihau allyriadau'r fflyd.

I grynhoi, yr oedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd  y Cabinet a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad.

## 10 **Adferiad COVID-19 - Diweddariad**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad am y cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'u partneriaid i adfer gwasanaethau ac i gynnal cymunedau Casnewydd fel rhan o Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd ein bod oll mewn rhyw ffordd wedi teimlo effeithiau Covid- 19 a'r cyfnod clo ar gymunedau, busnesau ac economi'r ddinas a chyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.
Ers mis Mawrth, prif ffocws y Cyngor fu ar arbed bywydau, lleihau lledaeniad y firws mewn cymunedau; cynnal rheng flaen y Cyngor a chefnogi gwasanaethau; a chefnogi pobl fregus sydd wedi dioddef yn uniongyrchol naill ai oherwydd covid-19 neu'r cyfnod clo.
Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cabinet ym mis Mehefin wedi cefnogi'r pedwar Nod Adfer Strategol i gyflwyno Amcanion Lles y Cyngor, ond hefyd i sicrhau y gall gwasanaethau'r Cyngor ddychwelyd yn ddiogel a rheoli achosion o glefyd yn y dyfodol.
Mae crynodeb o ymateb y Cyngor ers mis Mawrth yn dilyn cyflwyno'r clo gan Lywodraethau Cymru a'r DU yn yr adroddiad.

Trwy gydol y cyfnod hwn, bu tîm ymateb brys y Cyngor (Covid Aur) yn goruchwylio cyflwyno gweithgareddau gweithredol a strategol mewn ymateb i'r achosion mewn cymunedau a mesurau'r cyfnod clo.  Ar hyn o bryd, mae covid-19 yn dal o gwmpas yn ne ddwyrain Cymru, ac oherwydd hyn, mae'r Cyngor yn dal yn wyliadwrus ond hefyd yn hyblyg i gefnogi unrhyw fesurau angenrheidiol a hefyd i gefnogi cymunedau yn y ddinas.
Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ymateb y Cyngor ar draws ei feysydd gwasanaeth gan gynnwys y gwaith cydweithredol gyda phartneriaid y Cyngor yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau cymunedol a phartneriaid y trydydd sector.
Mae manylion llawn gweithgareddau'r Cyngor wedi eu cynnwys yn yr adroddiad – dyma rai enghreifftiau:

o Trwy gydweithredu rhwng Gwasanaethau Digidol y Cyngor, a'r Cyd-Wasanaeth Adnoddau (CWA), llwyddodd staff y Cyngor i weithio o gartref gan ddenfyddio Microsoft Teams, gliniaduron a gwasanaethau eraill.

o Bu cryn bwysau ar Wasanaethau oedolion a Chymunedol y Cyngor er mwyn sicrhau y gallai'r staff gael y cyfarpar gwarchod personol angenrheidiol a gwneud yn siwr fod

defnyddwyr gwasanaeth yn dal i dderbyn gofal. Mae timau Oedolion y Cyngor wedi bod yn cefnogi oedolion mewn cartrefi preswyl, therapi galwedigaethol a gofal cartref.

o Defnyddiodd Gwasanaeth Plant y Cyngor y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a phlant, a rhoi cefnogaeth angenrheidiol i ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a gofal seibiant.

o Gyda chau ysgolion, bu'n rhaid i ddisgyblion dderbyn addysg gartref gan ddefnyddio technoleg fel Google Classroom a fideo-gynadledda. Gyda gwaith caled ysgolion, gwasanaethau Addysg y Cyngor a CWA, llwyddwyd i gefnogi plant a nodwyd fel rhai wedi eu heithrio yn ddigidol a darparodd y Cyngor y cyfarpar a'r mynediad angenrheidiol.

o Er bod yr ysgolion wedi cau at ddibenion addysgol, darparodd llawer o ysgolion a Hybiau Cymdogaeth y Cyngor ofal i blant gweithwyr allweddol a 60 o ddysgwyr bregus.

o Daliodd Gwasanaethau'r Ddinas y Cyngor a Wastesavers ati i gasglu gwastraff o gartrefi a busnesau.

o Bu'n rhaid i lawer man cyhoeddus (parciau, mynwentydd, atyniadau) a gwasanaethau hamdden gau er mwyn sicrhau mesurau pellter cymdeithasol, ond wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae'r mannau hyn wedi ail-agor i'r cyhoedd.

o Cefnogodd gwasanaethau Cyllid y Cyngor fusnesau lleol trwy weinyddu dros 2,100 o geisiadau am grantiau gwerth £27m yn ogystal â thros £19m o ryddhad ardrethi busnes i 1,000 o fusnesau. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i gadw busnesau Casnewydd i fynd.

o Effeithiwyd ar economi'r ddinas gan y mesurau clo, ac wrth i gyfyngiadau lacio, mae'r tîm Rheoleiddio, tîm Adfywio a Gwasanaethau'r Ddinas wedi bod yn cefnogi busnesau er mwyn sicrhau bod amgylcheddau diogel ar gael i gwsmeriaid a staff.

o Ymwneud ag arweinwyr cymunedol ar draws cymunedau BAME ac ymylol y ddinas i wneud yn siwr y gallant gyrchu'r gwasanaethau angenrheidiol, gan rannu cyngor a chyfarwyddyd a chrybwyll digwyddiadau o droseddau casineb.

• Gyda llacio'r cyfyngiadau, bu'r Cyngor yn gweithio tuag at adfer a chyflwyno gwasanaethau yng Nghasnewydd. Yr oedd yr Arweinydd eisiau gwneud yn hollol glir ein bod ar bwynt lle gall fod angen mwy o gyfyngiadau gyda sefyllfa'r firws ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa yn newid yn barhaus, ac efallai y bydd yn rhaid i ni ddychwelyd i weithio mewn argyfwng petae pethau'n newid.

• Yr oedd yr adroddiad i'r Cabinet yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd a'i gynllunio ar draws y gwasanaethau:

o Croesawu ail-agor ysgolion a'r ymdrechion i sicrhau bod sefydliadau yn ddiogel i ddisgyblion a staff. Bu hwn yn gyfnod anodd iawn i ddisgyblion ac ysgolion a bydd y staff addysg yn cadw llygad trwy gydol y cyfnod hwn i gefnogi disgyblion prif-ffrwd a rhai bregus.

o Ail-gychwyn Dysgu Oedolion a chefnogi oedolion i fynd at hyfforddiant a sgiliau newydd.

o Hybiau Cymdogaeth sy'n cynnig cefnogaeth ar-lein a thros y ffôn i bobl sy'n chwilio am waith, a chefnogi Dinas-Ranbarth Caerdydd i hyrwyddo ffair swyddi rithiol ar draws De Ddwyrain Cymru.

o Yr ymrwymiad i annog a chyflwyno cyfleoedd i bobl ifanc BAME i gael cynlluniau prentisiaeth yn y Cyngor a'r ddinas.

o Mae gwaith adnewyddu wedi ail-ddechrau ar brosiectau allweddol fel Arcêd y Farchnad, ac adeilad IAC.

o Prynu cerbydau sbwriel trydan newydd fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i leihau ei ôl troed carbon.

o Cefnogi lleoliadau/darparwyr preswyl a chartref ledled Casnewydd i gynllunio adferiad a sefydlogrwydd ariannol tymor-hir.

o Derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno prosiectau teithio llesol gan gynnwys Monkey Island a chynlluniau canol y ddinas.

o Ail-agor safleoedd diwylliannol fel y Bont Gludo a Fourteen Locks.

o Cefnogi sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain ac Amddiffyn ar draws awdurdodau Gwent a BIPAB.

o Cefnogi staff y Cyngor i weithio'n fwy hyblyg o gartref ac ar draws safleoedd y Cyngor ac agor ffyrdd newydd i gymunedau ymwneud â'r Cyngor.

o Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian o fwy na £4.8m i godi dros 200 o gartrefi fforddiadwy newydd.

o Cefnogi'r digartref a chysgwyr allan (gyda'n partneriaid) i sicrhau llety parhaol a chefnogaeth.

o Mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad Effaith Cymunedol i ddeall, dysgu a chefnogi cymunedau yr effeithiodd Covid 19 arnynt.

o Ail-agor Hybiau Cymdogaeth (trwy wneud apwyntiadau) i roi gofal plant a chefnogaeth i gymunedau.

Gwahoddodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet i roi sylwadau:

Diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Arweinydd am ei chefnogaeth a'i harweiniad diflino trwy gydol y pandemig hwn. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Rahman am ei sylwadau caredig.

Yr oedd y Cynghorydd Truman am ddiolch o waelod calon i'r holl staff sydd wedi mynd ati i wneud gwaith yn ychwanegol at eu swyddi arferol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynnal yn ystod y pandemig.

Yr oedd y Cynghorydd Giles am roi neges i wrth-ddweud y wybodaeth anghywir nad yw staff y cyngor yn gweithio - mae staff dysgu a gweithwyr ledled yr awdurdod wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol yr amser. Canmolodd y Tîm Iechyd a Diogelwch am y cyngor a'r gefnogaeth a roddant i ysgolion. Erfyniodd ar rieni i sicrhau eu bod yn cydymffurfio a rheolau pellter cymdeithasol wrth fynd â'u plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i gasglwyr sbwriel Gwasanaethau'r Ddinas a Wastesavers sydd wedi parhau i weithio trwy gydol y pandemig, hyd yn oed yn y cyfnod clo; diolchodd hefyd i holl staff yr awdurdod sydd wedi ymdrechu mor galed.

Ategodd y Cynghorydd Harvey sylwadau ei chydweithwyr a nodi nad oes gan yr un cyngor arall staff gwell na mwy ymroddedig na Chasnewydd – maent oll wedi bod yn rhyfeddol.

Canmolodd y Cynghorydd Cockeram y gweithwyr cymdeithasol sy'n wynebu rhai sefyllfaoedd sy'n peri loes, gan gydnabod fod gweithio o gartref yn galed iawn i'r bobl hyn gan na allant rannu eu hemosiynau gyda chydweithwyr: mae hyn yn heriol iawn, felly rhaid cadw mewn cof iechyd meddwl a less pawb.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Weithredwr i ddweud gair, a chadarnhaodd mai pwrpas yr adroddiad yw cadw'r mater hwn ar flaenau meddyliau pobl, ac adfyfyrio ar y camau a gymerir gan y swyddogion bob dydd, wrth i'r sefyllfa newid. Mae Casnewydd yn gweld cynnydd mewn achosion, a'r unig ffordd i ymdrin â hyn yw i bawb gymryd cyfrifoldeb personol dros eu gweithredoedd.

I gloi, diolchodd yr Arweinydd i'r holl staff, partneriaid a chynghorwyr am gefnogi cymunedau a gwasanaethau, a chadarnhaodd y rhoddir diweddariad pellach am gynnydd y Cyngor yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Hydref.

I grynhoi, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r cynnydd hyd yma, a'r risgiau mae'r Cyngor yn wynebu o hyd.

Penderfyniad:

Pleidleisiodd y Cabinet a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad.

11 **Rhaglan Waith**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen a gyfoeswyd.

12 **PSB Crynodeb**

Er gwybodaeth yr oedd y ddogfen hon, ond anogodd yr Arweinydd bawb i edrych ar y wefan er mwyn gweld y gwaith sy'n cael ei wneud.

I gloi, diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu gwaith caled cyson, cadarnhau ein bod oll yn un yng Nghasnewydd, ac anogodd bawb i ddal ati i gydweithio ac i gynnal ei gilydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 1759.

13 **Live Event**